Gŵyl Gorawl Gogledd Cymru
North Wales Choral Festival

Newyddion yr Ŵyl

Rhifyn 8 - Medi 2010

Ymunwch â'r Gystadleuaeth Rŵan

Efo dim ond mis i fynd, mae'r dyddiad cau yn dynesu. Lawrlwythwch ffurflen gystadlu rŵan a'i chyflwyno cyn 24 medi er mwyn sicrhau eich lle yng nghystadleuaeth eleni. Efo cronfa wobr o £4,500, mae hon yn gystadleuaeth na fedrwch ei methu.

Efo 5 categori yn cynnig gwobr ariannol o £500 yr un, £200 am yr ail le a £100 am y trydydd, mae hi hefyd yn bosibl i un côr ennill £1,000 trwy ennill y côr gorau, gan hefyd enill eu gategori, a bod yn bencampwr ein gŵyl.

Cynhelir Gŵyl Gorawl Gogledd Cymru yn Venue Cymru, Llandudno ddydd Sadwrn 6 Tachwedd. Gallwch roi eich enw lawr ar gyfer y gystadleuaeth trwy lawrlwytho'r ffurflenni oddi ar y wefan. Gellir archebu tocynnau ar gyfer cystadlaethau'r dydd a'r nos trwy ddilyn y ddolen gyswllt ar yr hafan neu alw'r swyddfa docynnau ar 01492 872000.

Mezzo Soprano Sioned Terry

Eleni, gall corau pryderus fwynhau perfformiad gan y Mezzo Soprano Sioned Terry wrth iddynt aros am eu canlyniadau. Wrth i'r beirniaid ddyfarnu, bydd Sioned yn diddanu'r gynulleidfa gyda'i repertoire amrywiol sy'n cynnwys clasuron poblogaidd Lieder, Oratorio, cerddoriaeth Gymreig a theatr cerdd.

Mae Sioned wedi profi llwyddiant ar y llwyfan cenedlaethol a rhyngwladol ac wedi ennill teitlau yn y gorffennol yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru ac Eisteddfod Gydwladol Llangollen.

Cyflenwr newydd eich CD o'r Ŵyl

Os ydych chi'n darllen hwn fel rhywun sy'n hoffi cerddoriaeth yn gyffredinol a cherddoriaeth gorawl yn benodol, yna rydych chi'n rhannu diddordeb gyda'r Peiriannwr/Cynhyrchydd Steve Swinden, sy'n rhedeg Chorum. Ar ôl ymuno â'i ddau gôr cyntaf yn 13 oed, dechreuodd ddysgu sut i'w recordio. Tri deg mlynedd wedyn, Chorum yw galwedigaeth lawn amser Steve a'i unig ddymuniad yw cael mwy o amser i ganu! Pleser mwyaf Steve yw gweithio gyda chorau amatur a lled broffesiynol o bob math.

Chorum Records yw cyflenwr newydd CD Gŵyl Gorawl Gogledd Cymru a bydd yn bresennol yn nigwyddiad eleni, yn cynhyrchu CD o bob dosbarth, a'r cyngerdd olaf. I archebu eich CD ymlaen llaw ewch i **www.chorum.co.uk** neu ffoniwch 01902 743565 neu lawrlwythwch ffurflen archebu o **www.northwaleschoralfestival.co.uk**.

I gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â sut i gystadlu, neu i brynu tocynnau, ewch i'r wefan yn www.northwaleschoralfestival.co.uk

I gael sgwrs anffurfiol am y dydd, cysylltwch â threfnydd y digwyddiad, Alun Pritchard, ar 01492 575948 neu anfonwch e-bost at alun.pritchard@conwy.gov.uk

Gyda diolch i'n noddwyr:

Conwy County Borough Council
Stena Line Making good time
pianos cymru
St George's Hotel ★★★★